Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 11eg Rhagfyr 2017 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Cadeirydd Eleri Puw, Is Gadeirydd Elwyn Evans, H.E. Thompson, Gareth Evans, Steve Lewis, Robert Jones, Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones. Un o'r Cyhoedd.
Ymddiheuriad: Wendy Whitby ,(ddim yn dda) Pasiwyd i ddanfon gair yn dweud ein body n meddwl amdanynt.
Datgan Diddordeb:
Croeshawyd pawb gan yr is Cadeirydd Elwyn Evans

1 Derbyniwyd cofnodion Tachwedd a llofnodwyd gan y Cadeirydd y noson Elwyn Evans
2 Cae Chwarae: Dim yw adrodd.
3 Mynwentydd: Pasiwyd i dalu Arfon Owen am agor bedd.
4 Llwybrau: Pasiwyd I dalu Jones & Jones am waith cynal a chadw 2017.
5 Mr Anthony Pearson: Daeth i drafod arwyddion Eglwys Sant Michael – penderfynwyd mai cyfarfod ar y safle fyddai orau.
6 Cynghorydd Gwynedd: Holwyd iddi gysylltu a Mark Mortimer ynglyn a difa llygod mawr yn y pentref. Adroddodd bod toriadau yn debygol i'r Adran Ieuenctid. Nodwywd bod ymdrechion i fobol gysylltu a Gwynedd ar lein – www.Gwynedd.llyw.cymru. Nodwyd bod argymell i Canolfanau Hamdden gael eu rhedeg gan Cwmni newydd. Diolch I Beth Lawton.
7 Ciosg: dim
8 Un Llais Cymru: derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Elwyn Evans, Diolch iddo.
9 Cais Cynllunio: "Boot Shop" Stryd Llanegryn – trosiad o weithdy i hunan ddarpar gyda ychwanegiad o ffenestri tô. Trafodwyd – nid oedd gwrthwynebiad ond mi oedd pobl lleol yn pryderu am manau parcio.
10 Biniau Halen: dim
11 Derbyniwyd cais am gael bagiau swnd i helpu efo llifogydd sydyn. Derbyniwyd rhai prisiau a phasiwyd i drafod yn y cyfarfod nesa.
12 Archwiliad allanol: Pasiwyd copi i bob Cynhorwr a trafod yn y cyfarfod nesa.
13 Golau ger Minffordd: Pasiwyd i gysylltu eto i gael mwy o manylion.
14 Toiledau Cyhoeddus: Trafodwyd a oeddem eisiau eu cymeryd ymlaen. Pasiwyd mae cario ymlaen fel ag o'r blaen.
15 Coed afalau: Rheilffordd Talyllyn yn fodlon eu plannu ar eu tir yn Abergynolwyn.
16 Cafwyd apêl am goeden Nadolig, pasiwyd i drefnu a thalu amdano.
17 Taliadau:

J A Owen	agor bedd	£550.00	siec 915
Jones & Jones	llwybrau	660.00	916
K Jones	coeden dolig	30.00	917

Mari Jones
1. Dim

Cyfarfod Nesaf: Nos Lun 8fed Ionawr 2018 am 7 o'r gloch.